O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2025 Rhif 836 (Cy. 146)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A5 (Llyn Ogwen, Bwrdeistref Sirol Conwy) (Gwahardd Aros) 2025

Gwnaed	*10 Gorffennaf 2025*
Yn dod i rym	*14 Gorffennaf 2025*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o gefnffordd yr A5, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 1(1), 2(1), 2(2) a 124(1)(d) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**), a pharagraff 27(1) o Atodlen 9 iddi, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Mae Gweinidogion Cymru wedi ymgynghori â Phrif Swyddog Heddlu Gogledd Cymru ac wedi rhoi hysbysiad o'u bwriad i wneud y Gorchymyn hwn yn unol â rheoliadau 5(1) a 6(1) o Reoliadau Gorchmynion Traffig yr Ysgrifennydd Gwladol (Gweithdrefn) (Cymru a Lloegr) 1990(**2**).

Enwi a chychwyn

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A5 (Llyn Ogwen, Bwrdeistref Sirol Conwy) (Gwahardd Aros) 2025 a daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 14 Gorffennaf 2025.

Dehongli

2. Yn y Gorchymyn hwn—

(**1**) 1984 p. 27; diwygiwyd adrannau 1(1), 2(1) a (2) gan adran 168 o Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 (p. 22), a pharagraffau 17 a 18 o Atodlen 8 iddi; diwygiwyd adran 1(1) gan baragraff 36(1) o Atodlen 22 i Ddeddf yr Amgylchedd 1995 (p. 25). Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r swyddogaethau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(**2**) O.S. 1990/1656.

ystyr "y gefnffordd" yw cefnffordd yr A5 Llundain i Gaergybi.

Gwahardd aros

3. Ac eithrio fel y darperir yn erthygl 4, ni chaiff neb beri na chaniatáu i unrhyw gerbyd aros ar unrhyw adeg ar unrhyw ddiwrnod ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

Esemptiadau

4. Caiff person beri neu ganiatáu i unrhyw gerbyd aros ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn cyhyd ag sy'n angenrheidiol i alluogi—

(a) person i fynd i mewn i gerbyd, neu i ddod allan ohono;

(b) nwyddau i gael eu llwytho ar y cerbyd neu eu dadlwytho ohono;

(c) y cerbyd i gael ei ddefnyddio at ddibenion y frigâd dân, y gwasanaeth ambiwlans neu'r heddlu; neu

(d) y cerbyd, os na ellir ei ddefnyddio'n hwylus at y diben hwnnw ar unrhyw ddarn arall o ffordd, i gael ei ddefnyddio mewn cysylltiad ag unrhyw un neu ragor o'r gweithrediadau a ganlyn:

(i) gwaith adeiladu, gwaith diwydiannol neu waith dymchwel;

(ii) symud ymaith unrhyw rwystr i draffig;

(iii) cynnal a chadw, gwella neu ailadeiladu'r gefnffordd; neu

(iv) gosod, codi, addasu neu atgyweirio yn y darnau o'r gefnffordd, neu mewn tir cyfagos iddynt, unrhyw garthffos neu unrhyw brif bibell, unrhyw bibell neu unrhyw gyfarpar ar gyfer cyflenwi nwy, dŵr neu drydan neu unrhyw gyfarpar cyfathrebiadau electronig fel y'i diffinnir ym mharagraff 5 o Atodlen 3A i Ddeddf Cyfathrebiadau 2003(**1**);

(e) cerbyd i gael ei ddefnyddio yng ngwasanaeth awdurdod lleol neu awdurdod dŵr yn unol â phwerau neu ddyletswyddau statudol;

(f) y cerbyd i gymryd petrol, olew, dŵr neu aer o unrhyw garej ar y darnau hynny o'r gefnffordd neu'n gyfagos iddynt; neu

(g) cerbyd i stopio pan fo'r person sydd â rheolaeth arno'n gwneud y canlynol—

(**1**) 2003 p. 21. Mewnosodwyd Atodlen 3A gan baragraff 1 o Atodlen 1 i Ddeddf yr Economi Ddigidol 2017 (p. 30).

(i) pan fydd yn ofynnol yn ôl y gyfraith iddo stopio;

(ii) pan fydd yn gorfod stopio er mwyn osgoi damwain;

(iii) pan gaiff ei rwystro rhag mynd yn ei flaen gan amgylchiadau sydd y tu hwnt i'w reolaeth; neu

(iv) pan fo'n gweithredu yn ôl cyfarwyddyd neu â chaniatâd cwnstabl heddlu, swyddog cymorth cymunedol yr heddlu neu swyddog gorfodi sifil.

Dirymu

5. Mae Gorchymyn Cefnffordd yr A5 (Llyn Ogwen, Bwrdeistref Sirol Conwy) (Gwahardd Aros) 2023(**1**) wedi ei ddirymu.

Llofnodwyd ar ran Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 10 Gorffennaf 2025

Nicci Hunter
Arweinydd y Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru

YR ATODLEN

Y darn o ochr ogleddol y gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 66 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â'r ffordd ddiddosbarth sy'n gyfagos i Fwthyn Ogwen hyd at bwynt 2,897 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â'r ffordd ddiddosbarth honno.

Y darn o ochr ddeheuol y gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 66 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â'r ffordd ddiddosbarth sy'n gyfagos i Fwthyn Ogwen hyd at bwynt 1,315 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â'r ffordd ddiddosbarth honno.

(**1**) O.S. 2023/337 (Cy. 48).

Y darn o ochr ddeheuol y gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 1,460 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â'r ffordd ddiddosbarth sy'n gyfagos i Fwthyn Ogwen hyd at bwynt 1,995 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â'r ffordd ddiddosbarth honno.

Y darn o ochr ddeheuol y gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 2,392 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â'r ffordd ddiddosbarth sy'n gyfagos i Fwthyn Ogwen hyd at bwynt 2,898 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â'r ffordd ddiddosbarth honno.